**Cydymdrech:**

# Tuag at Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-ddwyrain Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Rhagfyr 2021

## Rhagair gan y Gweinidog

Mae ein dull o ymdrin â datblygu economaidd yn canolbwyntio ar yr egwyddor bod lleoedd yn bwysig, a'r gred ei bod yn bwysig sicrhau ffyniant a manteision twf economaidd ar gyfer pob rhan o Gymru. Mae De-ddwyrain Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn ganolfan economaidd, fasnachol a diwylliannol fywiog. Fodd bynnag, mae'n Rhanbarth llawn gwrthgyferbyniadau. Yn ddaearyddol dyma'r rhanbarth lleiaf yng Nghymru. Ond y boblogaeth yw'r fwyaf, gyda bron hanner poblogaeth Cymru yn byw ynddo, ac mae'n gartref i bron i hanner y busnesau yng Nghymru. Mae canolfannau masnachol ffyniannus yn bodoli ochr yn ochr ag ardaloedd lle mae amddifadedd sylweddol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Mae trefi a chymoedd yn dal i frwydro yn erbyn effeithiau dad-ddiwydiannu, ochr yn ochr ag ymchwil, arloesedd a rhagoriaeth dechnolegol sy'n bwysig ar lefel ryngwladol.

Cafodd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol eu llunio ar y cyd â'n partneriaid, fel rhan o ymrwymiad i fodel datblygu economaidd sy'n rhoi rhagor o bwyslais ar ranbarthau, ac ar gryfderau unigryw holl ranbarthau Cymru. Mae Awdurdodau Lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adeiladu ar eu gwaith ymgysylltu ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat, y byd academaidd a'r trydydd sector i ddrafftio'r ddogfen hon. Ar gyfer Rhanbarth ac ynddo gymaint o wrthgyferbyniadau, gyda deg Awdurdod Lleol, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth y DU a nifer o randdeiliaid yn ceisio cefnogi ei ddatblygiad economaidd mewn modd gweithredol, mae wedi bod yn hanfodol inni allu cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd yn y Rhanbarth er mwyn datblygu set gyffredin o flaenoriaethau sy'n llywio ein holl ymdrechion i gyflawni'r gwaith.

Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn ceisio amlinellu'r blaenoriaethau a rennir hyn i gefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol. Bydd yn helpu i fynd i'r afael â heriau strwythurol cynhenid drwy eu troi'n gyfleoedd ar gyfer rhanbarth deinamig a gwahanol.

Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen ei wneud, ein blaenoriaethau cyffredin ar gyfer y Rhanbarth. Nid yw'n archwilio'r broses o ddyrannu rolau a chyfrifoldebau, ac ni ddylai wneud hynny. Bydd y drafodaeth honno yn rhan o gam nesaf ein cydweithio.

Nid oes gan yr un sefydliad yr holl atebion. Er mwyn inni lwyddo mae dull gweithredu cydweithredol fesul cam, gan gydweithio â rhanddeiliaid ar draws y Rhanbarth yn hanfodol. Rydym wedi gweithio'n agos i ddatblygu un weledigaeth – sy'n cael ei hamlinellu yn y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol hwn. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn galluogi rhagor o alinio ym maes datblygu economaidd a chynllunio strategol – rhywbeth sydd ei angen rhwng partneriaid i osod y sylfeini ar gyfer dulliau newydd drwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Er mwyn elwa ar yr cydymdrechion a'r cyfleoedd cyffredin hyn, gan gynnwys Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cronfeydd Ffyniant a Rennir posibl a'r ddarpariaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid, mae angen inni ddatblygu a chyflwyno mentrau ategol a chydweithredol sydd o fudd i bobl a lleoedd Cymru.

Mae Cenhadaeth Llywodraeth Cymru i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer economi llesiant sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn ac yn helpu pawb i wireddu eu potensial. Gall y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod gweithgareddau ar bob lefel yn cyd-fynd er mwyn canolbwyntio ein hadnoddau lle y gallant gael yr effaith fwyaf.

Mae'r cynnydd hwn yn nodedig ac rydym wedi hen arfer â gweithio ar y cyd yn Ne-ddwyrain Cymru. Gallwn adeiladu ar sylfeini da lle mae gennym hanes o ran cydfuddsoddi a chefnogi sectorau, prosiectau a rhaglenni strategol allweddol ar y cyd. Gyda'i gilydd, mae Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cefnogi'r clwstwr o Led-ddargludyddion Cyfansawdd; maent yn gweithio'n agos i ddatblygu a darparu Metro De Cymru; maent wedi mabwysiadu dull sy'n cael ei ysgogi gan heriau; maent yn gweithio gyda'i gilydd ar y sgiliau a'r dalent sydd eu hangen ar yr economi drwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol; ac maent wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Cryfder mewn Lleoedd Ymchwil ac Arloesi'r DU. Mae hyn yn dyst i'r cryfderau rhanbarthol mewn meysydd technoleg sy'n datblygu. Ond rydym hefyd yn cydweithio'n agos i fynd i'r afael â'n heriau strwythurol drwy ddatblygu cronfeydd Safleoedd ac Adeiladau Strategol, Cronfa Bwlch Hyfywedd Tai ac rydym yn gweithio'n agos ar fentrau a gynlluniwyd i drawsnewid y Cymoedd a gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer sicrhau ffyniant a thwf ym mhob rhan o'r Rhanbarth.

Ein cydymrwymiad parhaus yw rhoi pob cyfle i'r bobl a'r busnesau rydym yn eu gwasanaethu i sicrhau lles economaidd hirdymor gydag urddas a thegwch i bawb. Rydym yn cydnabod bod y ffordd yr ydym yn cyflawni yr un mor bwysig â'r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol hwn yn garreg filltir bwysig ar y daith honno. Rydym am barhau i weithio gyda'n partneriaid sydd â diddordeb yn yr economi ranbarthol i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu a manteisio ar gyfleoedd newydd.

Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi

Y Cynghorydd Anthony Hunt, Cadeirydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

# Cyflwyniad a Chyd-destun

## Ein Lle

Yn gartref i brifddinas Cymru a thros 1.5 miliwn o bobl, 49% o'r boblogaeth, a 48% o'r busnesau yng Nghymru, mae De-ddwyrain Cymru yn Rhanbarth bywiog ac amrywiol, sydd wrth galon Cymru yn gymdeithasol, yn wleidyddol ac yn economaidd.

Mae poblogaeth, economi a daearyddiaeth yn Rhanbarth yn unigryw o ran eu hamrywiaeth. Yn gartref i 10 o awdurdodau lleol ac i amgylcheddau sy'n amrywio o ddinasoedd Caerdydd a Chasnewydd, trefi marchnad hanesyddol a chymunedau gwledig, i gadarnle ôl-ddiwydiannol y Cymoedd a llain arfordirol 30 milltir o hyd, mae'r Rhanbarth wedi gweld cryn adfywiad a buddsoddiad yn ystod y degawdau diwethaf, gan greu parciau busnes newydd, datblygiadau tai o safon, a mentrau hamdden llawn dychymyg. Gwelwyd prosiectau nodedig hefyd, gan gynnwys adfywio Bae Caerdydd, gwaith mawr ar y seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd fel ffordd Blaenau'r Cymoedd ar yr A465, a llwyddiant wrth ailgyflwyno gwasanaethau rheilffordd i deithwyr i Lynebwy. Mae effeithiau'r buddsoddiad hwn i'w gweld yn glir mewn rhanbarth sy'n cyfrif am ryw 50% o economi Cymru.

Gan elwa ar y dreftadaeth ddiwydiannol y mae mor falch ohoni, mae’r ardal bellach yn gartref i fusnesau gwasanaethau ariannol a phroffesiynol ffyniannus, i sector cyhoeddus amrywiol, ac i nifer o fusnesau angori ym meysydd gweithgynhyrchu Awyrofod, Moduro ac Amddiffyn. Mae’r sylfaen fusnes yn ehangu ac yn arallgyfeirio, ac un enghraifft sy’n dangos hynny’n glir yw’r clystyrau o safon fyd-eang sy'n datblygu mewn diwydiannau mawr eu twf fel Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, y Diwydiannau Creadigol, Technoleg Ariannol, Seiber a Gwyddorau Bywyd. Mae gan y Rhanbarth bedair prifysgol, poblogaeth fedrus lle mae gan dros 40% o’r boblogaeth gymwysterau NVQ4 neu uwch, prifddinas fywiog sy'n enwog am ei chyfleusterau diwylliannol a’i chyfleusterau chwaraeon rhagorol – a chyfuniad dymunol o arfordir, coedwigoedd, cymoedd a pharciau – ac mae yno lefelau uchel o lesiant ac ansawdd bywyd.

## Cyd-gyflawni

Mae'r map isod yn dangos Rhanbarth De-ddwyrain Cymru / Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a fydd yn cael ei alw’n "Rhanbarth" yng ngweddill y ddogfen. Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer y Rhanbarth yn ymrwymo i roi llais cryfach iddo drwy fodel datblygu economaidd sy’n canolbwyntio ar y Rhanbarth. Mae'n hyrwyddo datblygu economaidd cydweithredol ar draws y Rhanbarth drwy’r weledigaeth gytûn a’r blaenoriaethau cyffredin sydd gan y partneriaid. Drwy weld ein lle'n glir a thrwy ddeall ei gryfderau a'i asedau, a’r heriau a'r cyfleoedd sy’n ei wynebu, gallwn hoelio sylw pawb ar yr heriau economaidd a chymdeithasol mawr sy'n wynebu'r Rhanbarth.

Nod y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yw sefydlu set gyffredin o flaenoriaethau economaidd ar draws y Rhanbarth, gan gynnig cysondeb a dylanwad strategol a fydd yn dod â phobl ynghyd ac a fydd yn eu helpu i gyflawni ar y cyd. Rydym yn falch

o'n Rhanbarth; oherwydd y bydd yr ymdeimlad cyfoethog o dreftadaeth a diwylliant sydd ynddo, ei amgylcheddau trawiadol, ei gymunedau balch a’i dueddiad at arloesedd a dyfeisgarwch, yn hollbwysig er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, teg a chydnerth – ac er mwyn sicrhau na fydd unrhyw le'n cael ei adael ar ôl.

**Pwrpas cyffredin**

Er gwaethaf y cryfderau hyn a llwyddiant y buddsoddiad dros y 25 mlynedd diwethaf, mae rhannau o'r Rhanbarth yn parhau i gael eu diffinio’n rhai o'r ardaloedd mwyaf economaidd-ddifreintiedig yn Ewrop. Mae gwahaniaethau economaidd a chymdeithasol diymwad rhwng y parth arfordirol llewyrchus yng Nghaerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg a'r ardaloedd yng nghanol dinasoedd a rhannau mwyaf difreintiedig Cymoedd y De. Mae'r cyfosodiad hwn o angen a chyfle yn nodwedd benodol o'r Rhanbarth, ac felly hefyd y gyd-ddibyniaeth rhwng y brifddinas a'i chefnwlad ranbarthol ehangach.

Er bod Caerdydd wedi adeiladu’i chyfoeth drwy allforio o feysydd glo Cymoedd y De, mae cysylltiad hanfodol erbyn hyn rhwng ffawd cymunedau'r Cymoedd a marchnadoedd swyddi, sgiliau a thai Caerdydd a Chasnewydd. Mae’n hanfodol ein bod yn deall y rhwystrau sy’n atal llawer o grwpiau yng Nghymru rhag bod yn economaidd-weithgar. Rhaid i unrhyw ymyriadau sicrhau twf cynhwysol i bob dinesydd ar draws y Rhanbarth cyfan, gan alluogi cymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol ac i gael eu hintegreiddio â dinasoedd a threfi'r Rhanbarth. Mae hynny’n golygu bod angen datblygu'r economïau masnachadwy a sylfaenol mewn ffordd gydgysylltiedig iawn a fydd yn cynnwys digideiddio, cynaliadwyedd ac ymrwymiad i egwyddorion gwaith teg i bawb.

Gall, a dylai'r Rhanbarth berfformio'n economaidd ar yr un lefel ag unrhyw ranbarth arall yn y DU ac yn rhyngwladol, ond dylai wneud hynny drwy ganolbwyntio ar ei gryfderau cynhenid a'i asedau a'i fanteision unigryw. Rydym am fynd ati yn y Rhanbarth i greu cynghreiriau sy’n barod i weithredu; sy’n barod i feithrin y gallu i gryfhau ac i ledaenu arloesedd; i ddatblygu’n harbenigeddau; ac i ganolbwyntio ar y gwerth a'r gwerthoedd unigryw sy'n gwneud ein lle ni'n un arbennig.

Er mwyn sicrhau ein bod yn taro’r nod ac er mwyn gwella ffyniant economaidd y Rhanbarth cyfan, bydd yn bwysig:

- Canolbwyntio ar y meysydd sy’n gymharol gryf yn y Rhanbarth a all gystadlu ar lefel y DU ac yn rhyngwladol;
- Parhau i feddwl yn agored am gynigion da pan fyddant ar gael – ond gan gydnabod y bydd angen cymorth ychwanegol ar gymunedau sy'n teimlo eu bod wedi cael eu gadael ar eu hôl. Mae hynny’n golygu bod angen codi’r gwastad yn ein rhanbarth drwy brosiectau a fydd o fudd uniongyrchol i gymunedau;
- Cynyddu effaith drwy ddatblygu a lleoleiddio cadwyni cyflenwi, gan gynnwys buddsoddi mewn sgiliau, ac arloesi lle bo angen er mwyn hwyluso hynny;

- Cefnogi gwaith darganfod entrepreneuraidd drwy ddefnyddio’r dull 'Cryfder mewn Lleoedd' o greu clystyrau. Mae’r dull hwnnw’n cynnwys cefnogi buddsoddiad a thwf mewn ymchwil a datblygu, gan hoelio mwy o sylw ar fasnacheiddio gweithgarwch ym maes ymchwil gymhwysol;
- Creu'r amodau ar gyfer ecosystemau cyfoethog a fydd yn estyn ac yn cefnogi sectorau allweddol yn yr economi. Gallai’r amodau hynny gynnwys cymorth i feithrin sgiliau, pennu safleoedd ac adeiladau sy'n barod ar gyfer buddsoddiad, hygyrchedd a chysylltedd da, a chymorth buddsoddi;
- Hyrwyddo a chefnogi entrepreneuriaeth fel y bo’n poblogaeth nid yn unig yn chwilio am gyflogaeth ond yn creu cyflogaeth hefyd;
- Cryfhau'r economi sylfaenol er mwyn helpu i greu economi Ranbarthol gryf, a fydd yn gallu chwarae rhan weithredol mewn cadwyni cyflenwi lleol ac ymateb i heriau cymdeithasol fel gofal, heneiddio, symudedd, datgarboneiddio, iechyd a lles;
- Bod yn ymrwymedig i fuddsoddi'n gyfrifol, gan gefnogi cynaliadwyedd, gwaith teg, Cyflog Byw Gwirioneddol a sicrhau bod egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn rhan annatod o bopeth a wneir;
- Prysuro’r camau i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd, gan gydnabod bod hynny’n fodd i sbarduno twf ar raddfa fawr, cynhyrchiant a gallu’r rhanbarth i gystadlu;
- Sicrhau bod gan y Rhanbarth seilwaith trafnidiaeth, seilwaith digidol a seilwaith ynni cysylltiedig o'r radd flaenaf;
- Troi sylfaen fawr y sector cyhoeddus yn y Rhanbarth yn gaffaeliad a fydd yn dod â rhagor o ffyniant i'r Rhanbarth, drwy fanteisio ar sylfaen asedau a gwariant y sector cyhoeddus yn y Rhanbarth a gweithredu mewn ffordd a fydd yn fwyfwy 'seiliedig ar genhadaeth'.

## Yr Heriau a’r Cyfleoedd

Er mwyn mynd â’r maen i’r wal yn y dyfodol, mae’n hanfodol ein bod yn deall yr heriau a’r cyfleoedd allweddol y Rhanbarth. Gellir grwpio'r rhain yn fras o dan dri phennawd:

**<u>Cysylltedd</u>**
Mae angen gwella cysylltedd ffisegol a digidol yn y Rhanbarth ei hun a thu hwnt iddo, ar gyfer pobl a busnesau:

- **Gwasgaru swyddi newydd** – Mae angen i'r Rhanbarth sicrhau bod swyddi a gaiff eu creu yn cael eu gwasgaru’n ehangach ac mae angen hefyd iddo ganolbwyntio ar swyddi gwell yn nes 'adref'. Gall y Rhanbarth ddatblygu cadwyni cyflenwi uchel eu gwerth a sicrhau swyddi o ansawdd gwell er mwyn sbarduno cynhyrchiant a'r ymdeimlad sydd gan bobl o berthyn i’w lle.

- **Cysylltedd digidol** – Mae cysylltedd digidol yn amrywio ar draws y rhanbarth ac mae cyflymder band eang yn y rhan fwyaf o’r awdurdodau yn is na’r cyfartaledd ar draws y DU.  Er mwyn cyflawni’r blaenoriaethau sydd yn y

ddogfen hon, rhaid wrth y seilwaith digidol priodol ar gyfer economi'r 21ain ganrif ar draws y Rhanbarth cyfan.

- **Gwell seilwaith trafnidiaeth** – Mae mwy a mwy o alw am well cysylltiadau trafnidiaeth. Mae angen i'r Rhanbarth ddatblygu seilwaith trafnidiaeth a all oresgyn y diffyg cysylltiad rhwng yr ardaloedd trefol, y cymoedd a’r ardaloedd gwledig, a chynnig cyfleoedd mewn ffordd sy'n cadw’r ddysgl yn wastad rhwng anghenion economi ffyniannus ac anghenion economi wyrdd.

- **Ansawdd, amrywiaeth a fforddiadwyedd tai** – Mae prisiau tai, cyfleoedd datblygu a thwf aelwydydd yn amrywio'n fawr ar draws y Rhanbarth. Mae angen buddsoddi mewn 'cartrefi clyfar' fforddiadwy ac arloesol, mewn cartrefi deiliadaeth hyblyg a symudedd 'gydol oes' ar yr ysgol eiddo er mwyn darparu ar gyfer y twf a ragwelir.

**<u>Cystadleurwydd</u>**

- Diffyg màs critigol – Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yn y Rhanbarth, mae angen iddo dyfu'r economi, gan gydweithio'n agos â'r holl randdeiliaid, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cystadlu â dinas-ranbarthau a chytrefi mwy llewyrchus y DU.

- **GVA is na'r cyfartaledd** – Mae cynhyrchiant llafur yn y Rhanbarth yn 85% o gyfartaledd y DU ac mae ar ei hôl hi o’i gymharu â'r rhan fwyaf o ddinas-ranbarthau’r DU. Bydd gwaith ar glystyrau, sgiliau, a thwf a arweinir gan arloesedd yn allweddol er mwyn newid hynny.

- **Lefelau sgiliau** – Mae lefelau cymwysterau’n amrywio'n fawr yn y Rhanbarth o lefelau uchel yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy i rannau o'r Rhanbarth lle mae lefelau cymharol uchel o hyd o bobl sydd heb unrhyw gymwysterau o gwbl. Mae'r diffygion hyn yn rhwystr posibl sy’n atal twf mewn diwydiannau allweddol, a rhaid mynd i'r afael â nhw.

- **Gwahaniaethau o ran lefelau cyflogaeth a chyflog** – Mae cyfraddau diweithdra a lefelau cyflog yn amrywio'n fawr ar draws y Rhanbarth ac mae cyflogau gros cyfartalog yn y Rhanbarth yn is na chyfartaledd y DU, gyda 24% o’r cyflogeion yn y Rhanbarth yn cael eu talu islaw'r cyflog byw. Gall canolbwyntio ar glystyrau uchel eu gwerth a chefnogi gwaith teg a chyflogadwyedd fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

- **Buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu** – Mae gan y Rhanbarth sylfaen wyddoniaeth uchel ei pharch drwy ei phrifysgolion a’i busnesau arloesol, sy'n sylfaen gref ar gyfer datblygu technolegau a chymwysiadau newydd. Er hynny, mae buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu yn gymharol isel yn y Rhanbarth, ac mae gwariant Innovate UK yng Nghymru yn llai na thraean o’r ffigur cyfartalog ar gyfer y DU, sy’n golygu bod ein hymdrechion i ysgogi buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu yn wirioneddol bwysig.

**Cydnerthedd**

- **Cymysgedd ac amrywiaeth economaidd** – Mae'r ansefydlogrwydd sydd i'w weld fwyfwy yn y byd economaidd ehangach yn golygu bod angen hoelio sylw ar gydnerthedd y Rhanbarth, ac mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw'n gallu i addasu wrth i strwythur yr economi drawsnewid a newid yn y tymor hwy. Yn hanesyddol, mae'r Rhanbarth wedi dibynnu ar sectorau diwydiannol penodol. Gall datblygu'n cryfderau eraill ym maes darparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ariannol a chyhoeddus, a rhoi sylw i ddiwydiannau twf, ganiatáu inni arallgyfeirio'r economi a'i gwneud yn fwy hyblyg.

- **Gwersi a ddysgwyd ar ôl ergydion yn y gorffennol** – O ystyried lefelau amddifadedd mewn rhannau o'r Rhanbarth, mae ergydion economaidd fel Brexit a'r camau i atal feirws Covid-19 yn cael cryn effaith ar yr economi leol. Mae'r gwersi a ddysgwyd ar ôl argyfyngau yn y gorffennol yn dangos bod yn rhaid wrth ystwythder ac arloesedd, a chysondeb o ran ymatebion polisi hefyd, er mwyn creu economi gadarn.

- **Yr economi sylfaenol** – Mae'r Rhanbarth yn ddibynnol iawn ar gyflogaeth yn yr economi sylfaenol ac mae rhyw 35% o'r swyddi ym maes addysg, gofal iechyd, lletygarwch a manwerthu. Mae'r sectorau hyn yn bileri hanfodol ar gyfer creu swyddi a sefydlogrwydd, ac ar gyfer cyflogi graddedigion nad ydynt yn ymfudo. Maent, felly, yn rhoi cryn gadernid i'r economi ranbarthol yn ogystal â bod yn seiliedig ar gymunedau ac ar leoedd, sy'n golygu eu bod yn ffordd bwerus o alluogi gwasanaethau at ddefnydd cyffredinol y cyhoedd ac o greu cyfoeth yn lleol.

- **Newid demograffig** – Mae poblogaeth y Rhanbarth yn heneiddio, gydag 20% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn. Rhagwelir y bydd y ganran yn codi i 25% erbyn 2036, gan arwain at fwy o alw am wasanaethau sy'n gysylltiedig â gofal, ac at effaith bosibl ar y gweithlu a fydd ar gael i sectorau eraill. Rhaid i'r Rhanbarth hefyd barhau i ymdrechu i gadw'r nifer mawr o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol a'r nifer mawr o raddedigion, gan greu cyfleoedd o ran cyflogaeth a ffordd o fyw i bobl ifanc.

- **Y newid yn yr hinsawdd** – Mae'r angen i weithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd yn bwysig. Mae datgarboneiddio'r seilwaith diwydiannol, y seilwaith tai a'r seilwaith trafnidiaeth sydd gan y Rhanbarth ar hyn o bryd yn gryn her, ond mae hefyd yn gyfle i ddatblygu economi wyrdd ffyniannus.

- **Cymuned** – Mae cryn gryfder yn y Rhanbarth o ran ei wead cymdeithasol a'i ysbryd cymunedol. Mae hynny'n golygu y gellir bod yn optimistaidd am allu'r Rhanbarth i greu hunaniaeth gref ac unigryw ac i ddygymod â'r amryfal heriau sydd o'n blaenau. Mae'r amgylchedd naturiol uchel ei ansawdd a geir yn y Rhanbarth, yn ogystal â'r holl dreftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol eang sydd ynddo, yn cynnig cyfoeth o adnoddau a chyfleoedd ym maes twristiaeth, iechyd a hamdden.

# Y Blaenoriaethau

Mae'r Rhanbarth wedi dechrau arni'n arbennig o dda wrth fynd i'r afael â llawer o'r heriau a'r cyfleoedd hyn. Er mwyn adeiladu ar y gwaith hwnnw, bydd y Rhanbarth yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth a ganlyn er mwyn llywio'n datblygiad economaidd:

## Clystyrau Allweddol

Bydd y Rhanbarth yn helpu i ddatblygu ecosystem economaidd ac arloesi gref er mwyn datblygu clystyrau rhagoriaeth.

Gan adeiladu ar y fantais gystadleuol sydd gennym ac achub ar y cyfleoedd a geir yn yr economi, byddwn yn targedu'r sectorau hynny'n strategol er mwyn hwyluso clystyrau a fydd yn sicrhau twf cadarn a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac a fydd yn caniatáu i'r Rhanbarth gystadlu'n effeithiol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd y Rhanbarth yn gweithio ar draws yr ardal gyfan i greu'r amodau y mae eu hangen ar glystyrau er mwyn iddynt fedru ffynnu. Bydd yn helpu clystyrau mwy sefydledig fel y clwstwr Seiberddiogelwch a'r clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, a hefyd y diwydiannau hynny sy'n dechrau dod i'r amlwg, megis Technoleg Ariannol, Deallusrwydd Artiffisal a Data.

### Y Newid yn yr Hinsawdd, Cynaliadwyedd a Chydnerthedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd, ac mae tywydd eithafol yn cael mwy a mwy o effaith, sy'n dangos pa mor bwysig yw gweithredu yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Mae targedau i leihau carbon yn raddol yn creu cyfleoedd economaidd arloesol, ond maent hefyd yn gryn her i lawer o gwmnïau. Mae economi wyrddach yn rhan annatod o gymdeithas carbon isel. Drwy fuddsoddi mewn seilwaith carbon isel sy'n gallu dygymod â'r hinsawdd, drwy atebion sy'n seiliedig ar natur, prosiectau ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy, gall y Rhanbarth ychwanegu gwerth economaidd, gan greu swyddi a chyfleoedd i feithrin sgiliau mewn diwydiannau newydd a fydd yn amrywio o ynni adnewyddadwy i atgyweirio.

Os yw economi am fod yn gydnerth, rhaid iddi fod yn economi carbon isel. Mae angen i unrhyw weithgarwch o fewn y fframwaith hwn ystyried effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd ar bob lefel. Y tu hwnt i hynny, bydd yn canolbwyntio'n fras ar ddau faes − cymorth i wneud busnesau yn y Rhanbarth yn fwy effeithlon, a ffocws penodol ar brosiectau a busnesau a all gael effaith sylweddol ar ddatgarboneiddio De-ddwyrain Cymru. Er enghraifft, mae Pen-y-bont ar Ogwr wrthi'n cynnal treialon gyda'r Catapwlt Systemau Ynni er mwyn edrych ar ddatblygiadau arloesol ym maes systemau gwresogi ardaloedd, mae topograffeg y Cymoedd wedi annog buddsoddiad mewn ffermydd gwynt, ac mae awdurdodau lleol eraill yn ystyried buddsoddi mewn ffynonellau ynni carbon isel a all ddarparu pŵer a gwres dibynadwy a rhad i ddinasyddion a busnesau. Oherwydd ein cryfder ym maes lled-ddargludyddion cyfansawdd, mae'r gallu gennym i gynhyrchu pŵer solar mwy effeithlon ac i leihau faint o ynni y mae llawer o systemau ynni yn ei ddefnyddio.

Dylai'r Rhanbarth ystyried cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi, busnesau a chydnerthedd personol. Gallai edrych ar gymorth allforio, gwaith teg, ffyrdd digidol a hyblyg o weithio, seilwaith, sgiliau a chyflogadwyedd, digideiddio a chreu rhwydweithiau busnes a chadwyni cyflenwi lleol ffyniannus.

**Lle a Chysylltedd**

Mae lleoedd yn bwysig a byddwn yn ceisio gwireddu'n huchelgais i ddarparu swyddi gwell yn nes adref. Rydym am greu Cymru Ffyniannus, ac er mwyn i bobl y Rhanbarth fedru elwa ar y ffyniant hwnnw ac er mwyn inni fedru sicrhau gwell canlyniadau a gwella bywydau pobl, rydym yn deall bod yn rhaid inni fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb daearyddol sy'n bodoli. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu prosiectau a fydd yn sbarduno twf, yn lledaenu ffyniant, ac yn creu cymunedau llewyrchus. Wrth wneud hynny, byddwn hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod canol ein trefi a'n dinasoedd yn iach ac yn ffyniannus ac yn manteisio ar raglenni a fydd wedi'u targedu'n ddaearyddol.

Mae angen cryn fuddsoddiad mewn safleoedd ac adeiladau strategol a all gefnogi twf sylfaenol, cadwyni cyflenwi lleol a datblygiadau ar gyfer sectorau penodol. Yn ogystal, mae angen inni ddatgloi safleoedd ar gyfer datblygiadau tai domestig er mwyn gwella ansawdd, amrywiaeth a chynaliadwyedd tai lleol. Wrth fuddsoddi yn ansawdd a chynaliadwyedd y stoc tai newydd a'r stoc tai sy'n bodoli eisoes, dylid ceisio sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gadwyni cyflenwi lleol, gan greu cyfle i gefnogi'r economi sylfaenol a sgiliau hanfodol yn y Rhanbarth.

Mae cysylltedd yn hollbwysig – boed yn ddigidol neu'n ffisegol. Mae angen seilwaith dibynadwy arnom sy'n cysylltu'r Rhanbarth, y tu mewn iddo a thu hwnt, er mwyn hybu cynhyrchiant a ffyniant. Mae hynny'n cynnwys systemau trafnidiaeth a fydd yn galluogi pobl i symud o amgylch y Rhanbarth a thu hwnt; safleoedd priodol ar gyfer busnesau er mwyn rhoi hyblygrwydd a digon o le i gwmnïau ffynnu; seilwaith digidol a fydd yn golygu mai'r Rhanbarth fydd un o'r rhai mwyaf digidol ddatblygedig yn y DU; a system ynni a all ymateb i anghenion economi fodern a chynaliadwy.

Mae cynlluniau'r Metro yn gam sylweddol i'r cyfeiriad hwn a byddwn yn cyflwyno rhagor o gynigion er mwyn datgloi a manteisio i'r eithaf ar y potensial a fydd yn deillio o'r gwaith datblygu hwnnw yn y dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod gennym ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd a ffyrdd o deithio yn yr awyr, yn ogystal â'r seilwaith ynni a'r seilwaith digidol (sefydlog a symudol) a fydd yn ein cysylltu â'r byd ac yn ejn helpu i greu economi fodern ffyniannus ar draws y Rhanbarth.

## Arloesedd, Ymchwil a Chystadleurwydd

Mae'r cyfle gennym i greu economi a fydd yn cael ei harwain gan arloesedd yn ein Rhanbarth, drwy fuddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen a thrwy hoelio mwy o sylw ar ymchwil a datblygu ac arloesi.

Rhaid i'r Rhanbarth adeiladu ar ei gryfderau cydnabyddedig fel y rheini ym maes Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, a rhaid iddo hefyd barhau i gefnogi arloesedd sy'n dod i’r amlwg mewn cryfderau technolegol allweddol, gan gynnwys Technoleg Ariannol, Deallusrwydd Artiffisial/Data a Seiberddiogelwch.

Mae llawer o hyn yn dibynnu ar bartneriaid busnes ac academaidd cryf, felly mae'n rhaid i'r Rhanbarth barhau i weithio gyda busnesau a'r byd academaidd i gynyddu nifer y mentrau sy'n arloesi ac yn mabwysiadu syniadau newydd er mwyn agor marchnadoedd newydd, gwella cynhyrchiant a hyrwyddo rhagor o drosglwyddo gwybodaeth.

Bydd busnesau, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, darparwyr addysg bellach a sgiliau yn ganolog er mwyn nodi a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn sbarduno arloesedd a chystadleurwydd yn y Rhanbarth. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn deall gofynion busnesau o ran sgiliau a’u blaenoriaethau. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn mynd ati mewn ffordd gynhwysol i feithrin sgiliau a fydd yn galluogi rhagor o bobl i gyflawni eu llawn botensial a byddwn yn gwella lefelau sgiliau er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr, sbarduno cynhyrchiant a chreu cymunedau mwy cydnerth.